

## Polisi Corfforaethol-05

### Polisi Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru parthed

#### Cyllid a Chaffael

#### **(Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol: DBS Gwasanaethau Corfforaethol)**

Fel sefydliad a ariennir gan y cyhoedd, mae gennym ddyletswydd i fod yn gwbl atebol am yr arian yr ydym yn ei reoli a sut y gwariwn ef er mwyn arddangos gwerth am arian i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu ac i'n rheoleiddwyr.

#### **Cyllid**

Mae'r Gwasanaeth o dan ddyletswydd i gydymffurfio â chodau ymarfer a rheoliadau cyfrifo ariannol.

Er mwyn cyflawni hwn, mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i ddatblygu strategaethau, cynlluniau a gweithdrefnau ar draws ei holl feysydd busnes i sicrhau:

- Cynllun Ariannol Canoldymor grymus.
- Diogelu asedau ariannol.
- Cynhaliath cyfrifon a pharthau archwilio grymus i bob trafodyn.
- Cyhoeddi cyfrifon blynyddol archwiledig a gwybodaeth ariannol arall yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer cyfredol.
- Gosod a monitro cyllidebau tymor byr a hirdymor grymus.
- Rheoliadau Ariannol Grymus
- Craffu ac archwilio grymus a thryloyw.
- Dim goddefgarwch o dwyll a llygredd

Cyfeiriwch at yr Atodiadau canlynol:

1. Polisi Gwrth Dwyll a Llwgwrwbrwyaeth
2. Polisi Datgelu Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban)
3. Gweithdrefn Lletygarwch ac Anrhegion

#### **Caffael**

Mae'r Gwasanaeth o dan ddyletswydd i ddarparu'r gwerth gorau am arian wrth brynu nwyddau a gwasanaethau i gefnogi darpariaeth ein gwasanaethau i'n cymunedau.

Er mwyn cyflawni hwn, mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i ddatblygu strategaethau, cynlluniau a gweithdrefnau ar draws pob un o'i feysydd busnes i sicrhau:

- a. Gweithdrefnau Rheolau Sefydlog Cytundebau a Chaffael grymus.
- b. Cystadleuaeth deg ac agored yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer cyfredol.
- c. Manyleb anghenion grymus i sicrhau bydd nwyddau a gwasanaethau'n cwrdd ag anghenion adnabyddedig y Gwasanaeth.
- ch. Eithafu arbedion maint a grym gwariant drwy law cydweithredu.
- d. Rheolaeth dda o gytundebau.
- dd. Cynhyrchu cynllun gwario blynyddol ar gaffaeliadau.
- e. Cydymffurfio â gofynion caffael a sefydlwyd gan ddyletswyddau penodol Llywodraeth Cymru (Deddf Cydraddoldeb 2010).

Llofnodwyd:.......... Dyddiad: .....15/11/2018.....

DBS Gwasanaethau Corfforaethol

## PC-05, Atodiad 1, Polisi Gwrth Dwyll a Gwrth Llwgwrwbrwyaeth

### Cyflwyniad

- 1 Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru ("yr Awdurdod") yn ymrwymedig i sicrhau y defnyddir ei adnoddau at y dibenion y'u bwriadwyd yn unig, h.y. darparu gwasanaethau i ddinasyddion De Cymru. Mae polisi'r Awdurdod ar dwyll a llwgwrwbrwyaeth yn un o ddim goddefgarwch.
- 2 Ni oddefir twyll a llwgwrwbrwyaeth yn erbyn cyfrifon ac asedau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, gan Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub, staff y Gwasanaeth, sefydliadau partner (e.e. contractwyr) neu unrhyw asiantaethau eraill.

Mae hyn oherwydd ei fod:

- Yn dargyfeirio adnoddau hanfodol
  - Yn tramgwyddo ein moeseg a'n gwerthoedd craidd gwasanaeth cyhoeddus
  - Yn niweidio ein henw da parthed rheolaeth ariannol gadarn
  - Yn herio ein haddasrwydd i fod yn bwrpasol a'n crediniaeth yn llygaid ein cyfranddalwyr
- 3 Bydd unrhyw un a ganfyddir eu bod ynghlwm ag unrhyw weithgareddau twyllodrus neu sy'n ymwneud â llwgwrwbrwyaeth neu a fu'n esgeulus wrth weithredu dyletswyddau goruchwyliol yn destun achos disgyblu a, lle bo'n briodol, troseddol.
  - 4 Hefyd, gellir cymryd camau i adennill unrhyw gyllid a gollwyd.
  - 5 Y Gwasanaeth sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros adnabod ac adrodd achosion o wyngalchu arian. Gall unrhyw faes o fewn y Gwasanaeth sy'n derbyn arian gan berson neu goriff allanol fod yn agored i weithrediad gwyngalchu arian. Mae'r angen i fod yn wyliadwrus yn hanfodol a dylid adrodd unrhyw amheuaeth ynghylch priodoldeb trafodyn a cheisio cyngor gan y Trysorydd.
  - 6 Os oes unrhyw un yn amau twyll neu llwgwrwbrwyaeth, rhaid iddynt adrodd eu pryderon ar unwaith i'w Rheolwr, y Trysorydd neu Bennaeth Cyllid a Chaffael. Ni ddylai'r unigolyn na'i reolwr llinell ymchwilio i gyhuddiadau heb gyngor gan y swyddogion y soniwyd amdanynt eisoes, gan y gall hwn danseilio unrhyw gamau i'r dyfodol. Cyfarwyddir pob ymchwiliad i dwyll a llwgwrwbrwyaeth gan Uwch Swyddog penodedig.

## PC-05, Atodiad 2, Polisi Datgelu Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban)

### Cyflwyniad

- 1 Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru'n ymrwymedig i sicrhau safonau uchel o ran ymddygiad ac annog diwylliant o uniondeb a gonestrwydd.
- 2 Disgwylir i holl Aelodau a gweithwyr yr Awdurdod Tân gyflawni'u dyletswyddau mewn modd moesol ac adrodd unrhyw achosion o gamymarfer y dônt yn ymwybodol ohonynt.
- 3 Cynllunnir gweithdrefnau chwythu chwiban yr Awdurdod i sicrhau gall gweithwyr wneud hyn yn gyfrinachol ar adeg gynnar ac yn y modd cywir heb anfantais neu risg i'w cyflogaeth. Ni oddefir camymarfer busnes p'un ai y cyflawnwyd gan Aelodau'r Awdurdod Tân, gweithwyr, is contractwyr, staff asiantaeth neu bartneriaid busnes. Mae'r fath gamymarfer yn cynnwys unrhyw weithred neu fethiant i weithredu a all arwain at:
  - Gyflawni trosedd gyfreithiol
  - Dramgwyddo rhwymedigaethau cyfreithiol
  - Dramgwyddo polisiau neu weithdrefnau
  - Risg i iechyd a diogelwch
  - Berygl i'r cyhoedd
  - Niwed i'r amgylchedd
  - Gamweinyddiad cyfiawnder
  - Ddinoethiad materol ariannol neu risg i'r Awdurdod
  - Gelu unrhyw gamymarfer yn fwriadol
- 4 Mae'r polisi hwn yn gymwys ar draws holl weithrediadau'r Awdurdod a ph'un ai a ddigwyddodd y camymarfer dan sylw yn y gorffennol, y presennol neu y'i rhagdybir. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau y caiff unrhyw bryderon mewn perthynas â chamymarfer a godwyd yn cael eu hymchwilio yn unol â gweithdrefnau a bennwyd ac y cymerir camau dilynol priodol.
- 5 Mae darpariaethau'r polisi hwn yn gymwys i faterion amheuaeth o dwyll ac amhriodoldeb. Byddai materion cwynion mwy cyffredinol yn cael eu trin o dan weithdrefnau cwynion yr Awdurdod.
- 6 Cyfansoddwyd y polisi hwn i gymryd i ystyriaeth Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 sy'n darparu diogelwch i Aelodau'r Awdurdod a gweithwyr sy'n codi pryderon gwirioneddol y credant yn rhesymol eu bod er lles y cyhoedd.

## PC-05, Atodiad 3, Lletygarwch ac Anrhegion

### Cyflwyniad

- 1 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi ymrwymo i gynnal ein busnes yn deg, yn agored a gonest, wrth gynnal uniondeb ac enw da'r Gwasanaeth, ein haelodau a'n staff.
- 2 O dro i dro, fe all gweithwyr wynebu'r anhawster o benderfynu a ydynt am dderbyn lletygarwch ac anrhegion sy'n codi yn ystod eu gwaith ai beidio. Dylai'r weithdrefn hon gynorthwyo wrth benderfynu a fyddai derbyn lletygarwch neu roddion yn dderbyniol.
- 3 Ni ddylai gweithiwr, yn rhinwedd ei swydd neu ei gyflogaeth, dderbyn unrhyw ffi na gwobr heblaw cydnabyddiaeth swyddogol a phriodol.
- 4 Dim ond gyda chymeradwyaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol neu'r Pennaeth Cymorth Corfforaethol ymlaen llaw (Cynllun Dirprwyaethau 8.2.3) y gellir derbyn rhoddion neu lletygarwch nad ydynt yn fwy na £25. Rhaid datgan a chofnodi unrhyw Rodd neu lletygarwch a gynigir i weithiwr, p'un ai y'i derbynnir ai peidio, yn y Gofrestr a ddelir gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. Mae rhoddion hyrwyddo gyda gwerth enwol neu a dderbynnir mewn achlysur dinesig neu seremonïol yn dderbyniol ac nid oes angen eu datgan.
- 5 Ni ddylid derbyn rhoddion neu lletygarwch sy'n werth mwy na £25, oni bai bod y rhodd neu'r lletygarwch yn gymesur â'r amgylchiadau (er enghraifft, gall cinio mewn cynhadledd yn Llundain gostio £40 y pen). Mater o farn yw hyn, ond os oes amheuaeth gennych, holwch eich rheolwr llinell. Ni ddylid derbyn rhoddion neu lletygarwch drudfawr neu anghyfartal (er enghraifft gwyliau, gwestai/tocynnau i'r theatr, tocynnau i ddigwyddiadau chwaraeon o fri, technoleg) neu roddion neu lletygarwch a roddwyd i ysgogi mantais.
- 6 Mae cinio a ddarperir gan sefydliadau allanol mewn cynadleddau, cyfarfodydd ac ati yn dderbyniol ar yr amod nad ydynt yn rhy afradlon, er enghraifft, byddai cinio arlwyo mewn canolfan gynadledda yn iawn, ond ni fyddai cinio mewn tŷ bwyta moethus yn dderbyniol.
- 7 Dylai gweithwyr hefyd fod yn ymwybodol ei bod yn drosedd o dan Ddeddf Llwgrwobrwo 2010 i roi neu gynnig llwgrwobr i unrhyw sefydliad yn y sector preifat neu gyhoeddus neu unrhyw berson o fewn sefydliadau o'r fath. Gall cosbau gynnwys hyd at ddeng mlynedd yn y carchar neu ddirwy ddiderfyn.